OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 999

# Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad-cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000.

## RHAN VI

*DARPARIAETHAU EITHRIO*

**Ymchwilio i gŵynion eraill**

**12.** Bydd y drefn ymchwilio i gynion a sefydlwyd o dan baragraff 47A o Atodlen 2 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**1**) ac a weithredir odanynt yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gŵ yn ynglŷn â defnydd y swm dynodedig gan gyn-aelodau practis deiliad-cronfa, p'un a'i a wnaed y gŵ yn cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, neu ar y dyddiad y daw i rym neu wedi hynny, ac, er gwaethaf diddymu'r darpariaethau deiliad-cronfa, bydd cyn-aelodau'r practis deiliad-cronfa'n cydweithredu â'r ymchwiliad i'r gŵyn gan yr Awdurdod Iechyd yn ôl gofynion paragraff 47B o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny.

(**1**) O.S. 1992/635. Mewnosodwyd paragraffau 47A a 47B gan O.S. 1996/702, rheoliad 5.